

**2021 Rhif (Cy. )**

**PRIFFYRDD, CYMRU**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD  
LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40)  
(GWELLIANT PENBLEWIN I  
REDSTONE CROSS A THYNNU STATWS  
CEFNFFORDD) 2021**

*Gwnaed 24 Mawrth 2021*

*Yn dod i rym 24 Mawrth 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980<sup>(1)</sup>, yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

### **Cychwyn, Enwi a Dehongli**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Mawrth 2021 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Penblewin i Redstone Cross a Thynnu Statws Cefnffordd) 2021.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

Gwneir pob mesuriad pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

---

<sup>(1)</sup> 1980 (p. 66). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**2021 No (W. )**

**HIGHWAYS, WALES**

**THE LONDON TO FISHGUARD TRUNK  
ROAD (A40) (PENBLEWIN TO  
REDSTONE CROSS IMPROVEMENT  
AND DE-TRUNKING) ORDER  
2021**

*Made 24 March 2021*

*Coming into force 24 March 2021*

The Welsh Ministers, in exercise of powers conferred by sections 10 and 12 of the Highways Act 1980<sup>(1)</sup>, make this Order:-

### **Commencement, Title and Interpretation**

**1.** This Order comes into force on 24 March 2021 and its title is The London to Fishguard Trunk Road (A40) (Penblewin to Redstone Cross Improvement and De-Trunking) Order 2021.

**2.** In this Order—

All measurements of distance are measured along the route of the relevant highway;

---

<sup>(1)</sup> 1980 (c.66). By virtue of S.I.1999/672 article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales

- (i) ystyr “ffordd ddosbarthiadol” (“*classified road*”), fel dosbarthiad i briffordd, yw nad yw’r briffordd yn brif ffordd at ddibenion deddfiadau ac offerynnau sy’n cyfeirio at briffyrdd a ddsberthir yn brif ffyrdd ond ei bod yn ffordd ddosbarthiadol at ddibenion pob deddfiad ac offeryn arall sy’n cyfeirio at briffyrdd a ddsberthir gan Weinidogion Cymru ac nad yw’n cyfeirio’n benodol at eu dosbarthiad yn brif ffyrdd;
- (ii) ystyr y plan a adnewwyd” (“*the deposited plan*”) yw’r plan sy’n dwyn y rhif HA10/2 WG18 ac sydd wedi ei farcio “Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Penblewin i Redstone Cross a Thynnu Statws Cefnffordd) 2021” ac wedi ei lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru ac wedi ei adneuo (cyf qA1397254) yn Llywodraeth Cymru, Yr Uned Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, Parc Cathays, Caerdydd;
- (iii) ystyr “y gefnffordd newydd” (“*the new trunk road*”) yw’r briffordd sydd i’w hadeiladu ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn;
- (iv) ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40).
- (i) “classified road” (“*ffordd ddosbarthiadol*”) as a classification for a highway, means that the highway is not a principal road for the purpose of enactments and instruments which refer to highways classified as principal roads and is also classified for the purpose of every other enactment and instrument which refers to highways classified by the Welsh Ministers and which does not refer specifically to their classification as principal roads;
- (ii) “the deposited plan” (“*y plan a adnewwyd*”) means the plan numbered HA10/2 WG18 and marked “The London to Fishguard Trunk Road (A40) (Penblewin to Redstone Cross Improvement and De-Trunking) Order 2021”, signed on behalf of the Welsh Ministers and deposited (ref qA1397254) at the Welsh Government, Information and Records Management Unit, Cathays Park, Cardiff;
- (iii) “the new trunk road” (“*y gefnffordd newydd*”) means the highway to be constructed along the route described in Schedule 1 to this Order;
- (iv) “the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means The London to Fishguard Trunk Road (A40).

### **Priffordd sydd i ddod yn gefnffordd**

**3.** Bydd y briffordd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei hadeiladu ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn yn dod yn gefnffordd o’r dyddiad pan ddaw’r Gorchymyn hwn i rym.

**4.** Dangosir llinell ganol y gefnffordd newydd â llinell ddu drom ar y plan a

### **Highway to become trunk road**

**3.** The new highway which the Welsh Ministers propose to construct along the route described in Schedule 1 to this Order shall become a trunk road as from the date when this Order comes into force.

**4.** The centre line of the new trunk road is indicated by a heavy black line on the deposited plan.

adneuwyd.

### **Darn o gefnffordd sy'n peidio â bod yn gefnffordd**

5. Bydd y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau rhesog llydan ar y plan a adneuwyd, yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffordd ddsbarthiadol o'r dyddiad pan fydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Penfro fod y gefnffordd newydd ar agor ar gyfer traffig trwodd.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiad 24 Mawrth 2021



**NICCI HUNTER**  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

### **Length of trunk road ceasing to be trunk road**

5. The length of the trunk road described in Schedule 2 to this Order, and shown by broad striped hatching on the deposited plan shall cease to be trunk road and shall become a classified road as from the date on which the Welsh Ministers notify Pembrokeshire County Council that the new trunk road is open for through traffic.

Signed on behalf of the Welsh Ministers

Date 24 March 2021



**NICCI HUNTER**  
Business Team Leader  
Welsh Government

## **ATODLEN 1**

### **LLWYBR Y GEFNFFORDD NEWYDD**

Mae llwybr y gefnffordd newydd yn cychwyn o gyffordd ddwyreiniol Cylchfan Penblewin, yng Nghymuned Llanddewi Felffre, Sir Benfro i fan ger y fynedfa i'r eiddo o'r enw Jacob's Park, yng Nghymuned Tref Arberth, Sir Benfro fel a ganlyn:

Darn o'r gefnffordd sy'n cychwyn o bwynt tua 120 o fetrau i'r gorllewin o'r fynedfa i Penblewin Farm, yng Nghymuned Llanddewi Felffre (wedi ei farcio ag A ar y plan a adneuwyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad cyffredinol y de-orllewin am bellter o tua 1.78 cilometr hyd at bwynt ar y gefnffordd yn union y tu allan i'r fynedfa i'r eiddo o'r enw Jacob's

## **SCHEDULE 1**

### **ROUTE OF THE NEW TRUNK ROAD**

The route of the new trunk road commences from the eastern junction of the Penblewin Roundabout, in the Community of Llanddewi Velfrey, Pembrokeshire to adjacent to the entrance to the property known as Jacob's Park, in the Community of the Town of Narberth, Pembrokeshire as follows:

A length of the trunk road commencing at a point approximately 35 metres west of the entrance to Penblewin Farm, in the Community of Llanddewi Velfrey (marked A on the deposited plan) and extending in a generally south-westerly direction for a distance of approximately 1.78 kilometres to a point on the trunk road immediately outside the entrance to

Park, yng Nghymuned Tref Arberth (wedi ei farcio â B ar y plan a adnewyd).

## **ATODLEN 2**

### **DARN O GEFNFFORDD SY’N PEIDIO Â BOD YN GEFNFFORDD**

Mae’r darn o gefnffordd sy’n peidio â bod yn gefnffordd rhwng Cylchfan Penblewin a Redstone Farm, yng Nghymuned Tref Arberth, Sir Benfro fel a ganlyn:

Darn o’r gefnffordd sy’n cychwyn o bwynt tua 289 o fetrau i’r dwyrain o’r fynedfa i Blackmoor Hill Farm, yng Nghymuned Tref Arberth (wedi ei farcio ag C ar y plan a adnewyd) ac yn ymestyn i gyfeiriad cyffredinol y de-orllewin am bellter o tua 853 o fetrau hyd at bwynt ar y gefnffordd tua 167 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o Gyffordd Redstone Cross, yng Nghymuned Tref Arberth (wedi ei farcio â D ar y plan a adnewyd).

the property known as Jacob’s Park, in the Community of the Town of Narberth (marked B on the deposited plan).

## **SCHEDULE 2**

### **LENGTH OF TRUNK ROAD CEASING TO BE TRUNK ROAD**

The length of trunk road ceasing to be trunk road is between Penblewin Roundabout and Redstone Farm, in the Community of the Town of Narberth, Pembrokeshire as follows:

A length of the trunk road commencing at a point approximately 289 metres east of entrance to Blackmoor Hill Farm, in the Community of the Town of Narberth (marked C on the deposited plan) and extending in a generally south-westerly direction for a distance of approximately 853 metres to a point on the trunk road approximately 167 metres north east of Redstone Cross Junction, in the Community of the Town of Narberth (marked D on the deposited plan).